

Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd | Trwyddedu

Ceisiadau am Drwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacnai a Cherbydau Hurio Preifat - Canllawiau ar Sut i Drin Euogfarnau, Rhybuddion, Cyhuddiadau Troseddol neu gosbau cofnodedig eraill

1. Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas y polisi hwn yw rhoi canllawiau ar y meini prawf y mae'r Awdurdod Trwyddedu yn eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu p'un a yw ymgeisydd neu drwyddedwr presennol yn addas ac yn briodol i gael trwydded i yrru cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat.
- 1.2 Nod y polisi yw diogelu'r cyhoedd. Mae'n cymryd natur ardal y Cyngor i ystyriaeth ac, yn arbennig, y math o siwrneiau y gallai teithwyr sy'n agored i niwed fod yn mynd arnynt.

2. Cyffredinol

- 2.1 Yn y polisi a osodir isod, yr Awdurdod Trwyddedu yw Cyngor Sir y Fflint. Mae cyfeiriadau at y Pwyllgor yn cyfeirio at Bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint, neu Bwyllgor tebyg arall a allai gael ei benodi o dro i dro i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â thrwyddedu gyrwyr cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat.
- 2.2 O dan ddarpariaethau Adrannau 51 a 59, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau fod unrhyw un sydd am gael neu am adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat yn ddigon addas a phriodol i gael trwydded felly. Wrth brosesu cais am drwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gwirio cofnodion troseddol yr ymgeisydd. Nid yw'r ffaith fod gan ymgeisydd gofnod troseddol o reidrydd yn golygu na fydd yn cael trwydded. Fodd bynnag, bydd unrhyw euogfarnau, rhybuddion neu gyhuddiadau sy'n aros i gael eu profi, yn cael eu hystyried ar sail:
 - Pa mor berthnasol yw'r troseddau i'r drwydded y gwneir cais amdani
 - Pa mor ddifrifol oedd y troseddau, a
 - Pha mor ddiweddar oedden nhw
- 2.3 Mae Adran 61 y Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu ddiarddel, diddymu neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat os yw wedi'i ganfod yn euog o drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd, anweddustr, trais,

methu â chadw at ddarpariaethau Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847, neu unrhyw achos rhesymol arall.

- 2.4 Mae Gorchymyn Deddf Troseddwyd 1974 (Eithriadau) (Diwygiad) 2002, yn caniatáu i'r Cyngor gymryd unrhyw euogfarnau a gofnodwyd yn erbyn yr ymgeisydd, neu drwyddedwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacnai, i ystyriaeth p'un a yw wedi dar fod ai peidio. Gan hynny bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cymryd pob euogfarn perthnasol i ystyriaeth, yn arbennig os oes rhestr hir o droseddau neu batrwm diweddar o aildroseddu.
- 2.5 Un o'r amodau sy'n gysylltiedig â thrwydded gyrrwr cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat yw bod y trwyddedwr yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu yn ddi-oed o unrhyw euogfarnau, cyhuddiadau dan ystyriaeth neu rybuddion syml neu amodol gan yr heddlu sy'n codi.

3. Trefniadau Dirprwyo

- 3.1 Fel arfer, caiff cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat neu gais i adnewyddu trwydded bresennol ei ddirprwyo i swyddog awdurdodedig yn yr Awdurdod Trwyddedu.
- 3.2 Os yw ymgeisydd sy'n gwneud cais am drwydded newydd wedi'i ganfod yn euog o drosedd berthnasol (er enghraifft, un yn ymwneud ag anonestrwydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais, trosedd yrru ddifrifol neu dorri un o amodau'r drwydded) cyn pen pum mlynedd ar ôl dyddiad y cais, caiff y cais ei bennu gan y Pwyllgor Trwyddedu. Mae'n bosibl na chyfeirir trosedd berthnasol sydd wedi arwain at rybudd syml neu amodol neu hysbysiad cosb benodol at y Pwyllgor. Fodd bynnag, bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu canfod yn euog neu sydd wedi cael rhybudd syml neu amodol gan yr heddlu yn gysylltiedig ag anonestrwydd, anwedduster neu drais, neu sydd â hanes o aildroseddu cyn y cyfnod hwnnw yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor.
- 3.3 Bydd gofyn i yrrwr sy'n dal trwydded ddilys i yrru cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat gan Gyngor Sir y Fflint, sy'n cael ei ganfod yn euog o drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd, anwedduster, trais, methu â chadw at y darpariaethau statudol, neu unrhyw achos rhesymol arall yn ystod cyfnod y drwydded ymddangos gerbron y Pwyllgor. Mae "Achos Rhesymol" yn golygu troseddau o dan y ddeddfwriaeth drwyddedu a all gynnwys torri is-ddeddfau, neu amodau gyrrwr cerbydau hurio preifat, neu amodau trwyddedau cerbydau. Gall y Pwyllgor wedyn ddefnyddio ei bwerau i ddiarddel, diddymu neu wrthod adnewyddu'r drwydded.
- 3.4 Yn achos cais am adnewyddu trwydded, os yw'r Pwyllgor Trwyddedu eisoes wedi ystyried euogfarn ar achlysur blaenorol ac wedi penderfynu caniatáu'r drwydded, ni fydd yr euogfarn yn cael ei rhoi i sylw'r Pwyllgor eto heb achos rhesymol.
- 3.5 Gallai'r Rheolwr Gweithredol (Trwyddedu) benderfynu peidio â chyfeirio cais i'r Pwyllgor Trwyddedu os yw'r ymgeisydd wedi cael ei ganfod yn euog neu ei rybuddio am drosedd eithaf bach ac wedi dangos cyfnod o adferiad dros 3 blynedd cyn y dyddiad y gwnaethpwyd y cais.
- 3.6 Os caiff trwyddedwr cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat ei gyhuddo o drosedd a allai arwain at ddiddymu'r drwydded, caiff yr achos ei drafod yng nghyfarfod nesaf posibl y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn pennu p'un a ddylid gwahardd y drwydded ai peidio. Y Pwyllgor sy'n cael dewis p'un a ddylid adfer trwydded a ddiarddelwyd.

4. Euogfarnau, Torri Amodau a Throseddau Honedig

4.1 Nid yw'r wybodaeth isod yn drwyadl nac wedi'i gosod mewn unrhyw drefn blaenoriaeth. Canllaw ydyw i ymgeiswyr ynglŷn â sut mae'r Pwyllgor yn penderfynu faint o bwyslais i'w roi ar euogfarn, cyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r achos sydd o'u blaenau. Yr egwyddor gyffredinol yw:

- i) Bydd pob achos yn cael ei bennu ar ei rinwedd ei hun, ac:
- ii) Y brif ystyriaeth fydd diogelu'r cyhoedd, a;
- iii) Os oes tystiolaeth sy'n peri amheuaeth sylweddol am addasrwydd a phriodoldeb yr ymgeisydd neu'r trwyddedwr, bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n defnyddio'r egwyddor ragofalus ac yn gwrthod y cais, neu'n diddymu'r drwydded.

Troseddau Gyrru Bach

4.2 Fel arfer, ni fydd troseddau gyrru bach, megis 3 phwynt cosb ar eich trwydded, yn arwain at wrthod eich cais neu ddiddymu'ch trwydded ac ni chyfeirir yr achos at y Pwyllgor. Mae'n bosibl y bydd gyrrwyr sydd â phatrwm o aildroseddu dros gyfnod hir yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor.

Troseddau Gyrru Mawr

4.3 Bydd troseddau gyrru mawr, megis rhwng 4 ac 11 pwynt cosb ar eich trwydded, fel arfer yn arwain at rybudd ysgrifenedig ynglŷn ag ymddygiad gyrru yn y dyfodol. Hysbysir y gyrrwyr o'r safonau gofynnol. Os oes gan yr ymgeisydd neu'r trwyddedwr fwy nag un euogfarn ar gyfer y math hwn o drosedd o fewn cyfnod o bum mlynedd yn gorffen ar ddyddiad yr ail drosedd, caiff y mater ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu. Bydd y Pwyllgor yn cymryd unrhyw euogfarnau blaenorol i ystyriaeth ac efallai'n penderfynu gwrthod y cais neu ddiddymu'r drwydded gyfredol. Os yw'r drosedd yn ymwneud ag yswiriant y cerbyd, bydd gofyn i'r ymgeisydd ddangos ei fod yn gallu cael yswiriant sy'n cwmpasu hurio a thâl.

Torri Amodau'r Drwydded

4.4 Bydd trwyddedwr cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat sy'n cael ei ganfod yn torri deddfwriaethau trwyddedu neu amodau'r drwydded gan swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu, neu swyddog yr heddlu, yn cael rhybudd ysgrifenedig ynglŷn ag ymddygiad yn y dyfodol, cyn belled a bod y drosedd heb beryglu bywydau teithwyr neu'r cyhoedd.

4.5 Gall y Pwyllgor Trwyddedu ddiddymu trwydded gyrrwr cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat os yw'r trwyddedwr wedi cael ei gyhuddo o achos difrifol o dorri'r gyfraith drwyddedu.

Gwaharddiadau Gyrru (heb gynnwys troseddau yfed a gyrru)

4.6 Ym mharagraffau 4.7 i 4.10 isod, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n trin cyfnod o waharddiad fel un y byddai'r gyrrwr wedi bod yn gymwys i wasanaethu, a bydd yn anwybyddu penderfyniad y llys i hepgor neu leihau cyfnod gwahardd naill ai ar sail

caledi eithriadol o dan Adran 35 o Ddeddf Troseddwyr Traffig y Ffyrdd 1988 neu am “resymau arbennig” o dan Adran 34 o Ddeddf Troseddwyr Traffig y Ffyrdd 1988.

- 4.7 Os bydd cyhuddiad diweddar wedi arwain at gyfnod gwahardd byr (llai na 56 diwrnod), nid yw'r cais yn debygol o gael ei ganiatáu oni bai fod o leiaf 6 mis wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod gwahardd. Gallai'r cyfnod hwn o 6 mis gael ei ostwng yn unol â doethineb y Pwyllgor Trwyddedu os yw'r ymgeisydd wedi llwyddo mewn hyfforddiant a phroffion gyrru cydnabyddedig pellach ers i'r gwaharddiad ddod i ben.
- 4.8 Os oes digon o bwyntiau cosb wedi cronni dros gyfnod o dair blynedd o dan y system “pentyrru pwyntiau” i achosi neu wneud ymgeisydd yn deilwng i gael ei wahardd am fwy na 12 mis, nid yw'n debygol o gael trwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat na cherbyd hacnai yn cyn pen 12 mis ar ôl diwedd y cyfnod gwahardd. Gallai'r cyfnod hwn o 12 mis gael ei ostwng yn unol â doethineb y Pwyllgor Trwyddedu os yw'r ymgeisydd wedi llwyddo mewn hyfforddiant a phroffion gyrru cydnabyddedig pellach ers i'r cyfnod gwahardd ddod i ben.
- 4.9 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n debygol o ganiatáu cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat na cherbyd hacnai am gyfnod o dair blynedd ar ôl diwedd unrhyw waharddiad sydd wedi para dros 12 mis. Gallai'r Pwyllgor Trwyddedu ddefnyddio ei ddoethineb i ostwng y cyfnod o dair blynedd i ddim llai na 12 mis os yw'r ymgeisydd wedi llwyddo mewn hyfforddiant a phroffion gyrru cydnabyddedig pellach ers i'r gwaharddiad ddod i ben.
- 4.10 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn croesawu cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacnai gan unrhyw un sydd wedi'i wahardd rhag gyrru am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

Gyrru Dan Ddylanwad Alcohol neu Gyffuriau

- 4.11 Caiff gwaharddiad rhag gyrru ar ôl euogfarn o yrru, neu o fod yn gyfrifol am gerbyd, dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, ei ystyried yn llawer mwy difrifol na gwaharddiad o dan baragraffau 4.7 a 4.8 uchod. Nid yw un euogfarn yn debygol o arwain at wrthod cais, cyn belled a bod o leiaf tair blynedd wedi mynd heibio ers i'r gwaharddiad ddod i ben. Mae'n bosibl y bydd euogfarn am 'wrthod neu fetu â darparu sampl ar gais' yn cael ei drin yn yr un modd.
- 4.12 Ni chaniateir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â mwy nag un euogfarn am drosedd debyg heb adael i o leiaf pum mlynedd fynd heibio ers diwedd y cyfnod gwahardd. Mae'n bosibl y bydd archwiliad meddygol yn ofynnol cyn i gais gael ei ystyried. Os gwelir bod angen triniaeth feddygol ar yr ymgeisydd, dylai cyfnod o bum mlynedd fynd heibio, ar ôl triniaeth lwyddiannus, cyn y gellir caniatáu cais pellach.

Troseddau Sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau

- 4.13 Mae'n debygol y bydd gofyn i ymgeisydd sydd wedi'i ganfod yn euog o fod â sylwedd anghyfreithlon yn ei feddiant ddangos o leiaf pum mlynedd heb unrhyw euogfarn cyn y gellir caniatáu cais. Os yw'r ymgeisydd wedi cael triniaeth ar gyfer dibyniaeth, bydd hwn yn gyfnod o bum mlynedd ar ôl cael triniaeth ddadwenwyo lwyddiannus.
- 4.14 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n debygol o ganiatáu cais gan unrhyw un sydd wedi'i ganfod yn euog o drosedd yn ymwneud â chyflenwi sylweddau anghyfreithlon i eraill

oni bai fod o leiaf 10 mlynedd wedi mynd heibio ers iddynt gael eu canfod yn euog o'r drosedd.

Meddwdod (heb fod mewn cerbyd)

- 4.15 Nid yw un achos o euogfarn sy'n gysylltiedig â meddwdod yn debygol o arwain at wrthod cais neu ddiddymu trwydded, cyn belled ac nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw ymddygiad troseddol arall.
- 4.16 Gallai mwy nag un euogfarn sy'n gysylltiedig â meddwdod ddangos fod gan yr ymgeisydd broblem feddygol sy'n mynnu adroddiad meddygol. Os caiff yr ymgeisydd ei asesu fel rhywun sy'n ddibynnol ar alcohol, dylai cyfnod o dair blynedd ar ôl triniaeth lwyddiannus fynd heibio cyn i gais arall am drwydded gael ei ystyried. Gallai trwydded trwyddedwr presennol gael ei gwahardd tra bo'r Awdurdod yn disgwyl canlyniad yr adroddiad meddygol. Bydd adroddiad meddygol sy'n cadarnhau dibyniaeth ar alcohol yn arwain at ddiddymu'r drwydded.

Anwedduster a Throseddau Rhywiol Eraill

- 4.17 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn caniatáu cais gan unrhyw un sydd wedi'i ganfod yn euog, neu sydd wedi cael rhybudd syml neu amodol, am drosedd yn gysylltiedig â chamymddygiad rhywiol gan gynnwys dinoethi anweddus, ymosodiad anweddus, llithio neu unrhyw droseddau rhywiol difrifol eraill. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ddatgelir yn unol â doethineb y Prif Gwnstabl.

Trais

- 4.18 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n debygol o ganiatáu cais gan unrhyw un sydd wedi'i ganfod yn euog o drosedd yn ymwneud â defnyddio trais sy'n arwain at wir niwed corfforol, niwed corfforol difrifol, clwyfo neu ymosodiad, oni bai fod o leiaf pum mlynedd wedi mynd heibio ers unrhyw euogfarn tebyg. Mae'n bosibl i drwydded trwyddedwr sy'n cael ei ganfod yn euog o drosedd fel hyn gael ei diddymu.
- 4.19 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n debygol o ganiatáu cais gan unrhyw un sydd wedi'i ganfod yn euog o drosedd sy'n gysylltiedig â defnyddio trais neu ymddygiad bygythiol tuag at swyddog yr heddlu.
- 4.20 Fel arfer bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n diddymu trwyddedau gyrrwyr cerbydau hurio preifat neu gerbydau hacnai sydd wedi'u canfod yn euog o drosedd yn ymwneud ag atal, neu roi datganiad anghywir i, neu ddefnyddio trais neu ymddygiad bygythiol tuag at swyddog yr heddlu neu swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu sy'n ymgymryd â'i ddyletswyddau.

Anonestrwydd

- 4.21 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n debygol o ganiatáu cais gan unrhyw un sydd wedi'i ganfod yn euog o drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd oni bai fod o leiaf tair blynedd wedi mynd heibio ers euogfarn tebyg. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dal i wrthod y cais oni bai fod yr ymgeisydd yn gallu darparu geiradaon gan o leiaf dwy ffynhonnell ymddiriedus megis cyflogwr neu swyddog prawf, i gefnogi'r cais.

Ail-droseddu

- 4.22 Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n debygol o ganiatáu cais gan unrhyw un â chofnod o aildroseddu parhaus, lle mae'r cofnod yn dangos diffyg ystyriaeth i les eraill neu eiddo, oni bai fod o leiaf deng mlynedd wedi mynd heibio ers yr euogfarn diweddaraf. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dal i wrthod y cais oni bai fod yr ymgeisydd yn gallu darparu geirdaon cymeriad gan o leiaf dwy ffynhonnell ymddiriedus megis cyflogwr, neu swyddog prawf, i gefnogi'r cais.

5. Trwyddedau Prawf

- 5.1 Gallai'r Pwyllgor roi trwydded 'brawf' i ymgeisydd am gyfnod llai na 12 mis cyn belled a bod rheswm dilys dros wneud hynny.

6. Preswylwyr Tramor

- 6.1 Os yw'r ymgeisydd wedi treulio chwe mis yn olynol neu fwy mewn gwlad dramor bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl gweld tystiolaeth o wiriad cofnodion troseddol o'r wlad neu'r gwledydd y bu'r ymgeisydd yn byw ynddynt yn ystod y cyfnod hwnnw.

7. Trwyddedau a Roddwyd gan Awdurdodau Eraill

- 7.1 Os yw'r cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacnai / cerbyd hurio preifat wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu i gael penderfyniad mewn cysylltiad â'r polisi hwn, ac os oes gan yr ymgeisydd drwydded fel hyn eisoes gan awdurdod lleol arall, bydd canllawiau'r polisi hwn yn cael blaenoriaeth dros unrhyw benderfyniad a wnaed gan awdurdod arall.

8. Apeliadau

- 8.1 Gall unrhyw un sydd wedi'i dramgwyddo gan benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu i ddiddymu, diarddel neu wrthod rhoi trwydded gyrrwr iddynt neu gan unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded, apelio i'r Llys Ynadon cyn pen 21 diwrnod ar ôl cael hysbysiad o'r penderfyniad.